Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Parkland Place**

**100 Ffordd Llanelian**
**Hen Golwyn**
**Bae Colwyn**
**LL29 9UH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

24 Mai 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Parkland Place

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Adferiad Recovery |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Cliciwch yma i ychwanegu testun.<br>Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers iddo gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Parkland Place yn cynnig gwasanaeth adfer preswyl therapiwtig i bobl â phroblemau dibyniaeth. Mae adborth y bobl yn dystiolaeth o ddarpariaeth gwasanaeth llwyddiannus. Maent yn canmol y rhaglen therapiwtig ac yn dweud bod y staff sy'n hwyluso hyn yn 'dda' ac yn 'gallu uniaethu â mi' ac 'yn deall'. Mae'r staff hyn yn brofiadol ac yn arbenigwyr yn eu gwaith oherwydd bod y gwasanaeth yn gwerthfawrogi ei staff ac yn eu cefnogi'n rhagweithiol i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach. Mae'r bobl yn mwynhau'r bwyd; mae'n faethlon, yn amrywiol ac wedi'i gyflwyno'n dda. Mae'r fwydlen yn cynnig dau opsiwn a gall y bobl ddewis rhywbeth gwahanol i hyn os dymunant. Yn ogystal â'r gweithgareddau therapiwtig, mae gweithgareddau hamdden yn hyrwyddo ymarfer corff hamddenol megis teithiau cerdded yng nghefn gwlad ac ar y traeth.

Mae ystod eang o archwiliadau a gynhelir ar bob agwedd ar y gwasanaeth yn aml yn helpu i sicrhau ei fod yn ddiogel, yn effeithiol ac yn darparu gwasanaeth o safon. Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth, gan fynychu o leiaf bob tri mis i gynnal gwiriadau a rhoi adborth i'r darparwyr. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y bobl yn hapus â'r gwasanaeth ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus.

Er bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn plas hanesyddol, mae wedi'i adnewyddu a'i addurno i safon uchel mewn ffordd sy'n ffafriol i arhosiad hamddenol a chyfforddus. Wedi'i leoli mewn gerddi helaeth, mae digon o le yn yr awyr agored ar gyfer cymdeithasu ac ar gyfer amser tawel hefyd.

## Llesiant

Mae gan y bobl sy'n aros yn Parkland Place ddewis a rheolaeth dros y rhan fwyaf o'u diwrnod yn y gwasanaeth. Gallant ddewis pryd i fynd i'r gwely a phryd i godi, ar yr amod eu bod yn mynychu eu sesiynau therapiwtig. Maent yn dewis eu hopsiynau bwyd o fwydlen; os yw'n well ganddynt rywbeth gwahanol, gallant ei gael. Darperir ar gyfer deietau arbenigol. Cynigir gweithgareddau hamdden a gall y bobl ddewis a ydynt am ymgysylltu â nhw ai peidio. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod cyfleoedd i'r bobl fynd ati gydag unrhyw bryderon ac mae'n ceisio eu barn yn rhagweithiol i sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n dda.

Mae iechyd corfforol a meddyliol y bobl yn cael ei fonitro drwy gydol eu harhosiad. Mae'r staff yn ymarferwyr therapiwtig, sy'n arbenigo mewn materion dibyniaeth, a dyrennir dau aelod penodol o staff i'r bobl drwy gydol eu harhosiad. Cynhelir sesiynau un-i-un dyddiol gyda'r staff hyn sy'n gallu cynnig y math cywir o gefnogaeth ac arweiniad a gwirio llesiant y bobl. Anogir pobl i fyfyrio, archwilio eu hanes personol ac unrhyw faterion a allai fod yn effeithio ar eu hiechyd meddwl. Rhoddir meddyginiaeth gan staff hyfforddedig a chaiff iechyd ei fonitro. Mae therapi grŵp yn galluogi'r bobl i rannu profiadau ac archwilio sbardunau ar gyfer ymddygiad a dulliau ymdopi. Mae gweithgareddau hamdden yn cynnwys ymarfer corff, y cyfle i archwilio atyniadau lleol a mwynhau natur.

Gan fod y staff wedi'u hyfforddi ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, a bod polisïau diogelu yn llywio arferion, caiff y bobl eu hamddiffyn rhag arferion gwael neu gamdriniaeth. Mae'r staff hefyd wedi'u hyfforddi i reoli ymddygiad heriol a gwrthdaro rhwng pobl. Mae'r rheolwr yn rhoi cyfle i'r staff gael cyfarfodydd cyfrinachol lle gellir trafod arferion ac unrhyw bryderon. Mae'r trefniadau hyn i gyd yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel.

Mae Parkland Place yn dŷ mawr sydd wedi'i leoli mewn tiroedd tawel, disylw. Mae'r gerddi mawr eang yn rhoi lle ar gyfer heddwch ac ynysigrwydd a mannau eraill ar gyfer cymdeithasu a chwarae gemau lawnt. Mae'r holl ystafelloedd yn olau a modern, wedi'u dodrefnu a'u haddurno i safon uchel. Maent yn gyfforddus, gyda chyfleusterau en suite, gwely dwbl, dodrefn modern a theledu gyda chysylltedd i'r rhyngrwyd. Mae digon o ystafelloedd cymunol fel gall y bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnod rhwng sesiynau therapiwtig, boed hynny'n ymuno â'r gweithgareddau hamdden neu'n treulio amser ar eu pen eu hunain. Mae'r ystafell fwyta yn cynnwys cegin fach lle gall y bobl baratoi eu diodydd eu hunain a helpu eu hunain i gael byrbrydau, gan gynnwys ffrwythau. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol eu hamgylchedd.

## Gofal a Chymorth

Darperir y gofal a’r cymorth o ansawdd sydd eu hangen ar unigolion trwy wasanaeth a gynlluniwyd mewn ymgynghoriad â’r unigolyn. Mae'r gwasanaeth yn ystyried dymuniadau personol, dyheadau a chanlyniadau dymunol y bobl yn ogystal ag unrhyw risgiau ac anghenion arbenigol wrth gynllunio eu gofal a’u cymorth. Mae Parkland Place yn gyfleuster therapiwtig uchel ei barch ar gyfer pobl â phroblemau dibyniaeth; gwelsom lawer o ganmoliaeth gan y bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth i ddangos ei lwyddiant. Mae cofnodion yn cynnwys crynodeb rhyddhau cynhwysfawr, asesiad o'r sefyllfa bresennol, hanes ac anghenion y bobl. Cwblheir asesiadau risg ar gyfer maes agored i niwed pob unigolyn megis iechyd meddwl, hanes fforensig, sefyllfa deuluol, materion triniaeth ac unrhyw risgiau arwyddocaol eraill. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd ar y gwaith casglu gwybodaeth hwn, gan sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac adolygir eu hanghenion yn fuan ar ôl eu derbyn. Gwelsom fod gan bob unigolyn ei amserlen wythnosol ysgrifenedig ei hun o weithgareddau a sesiynau therapi i ddarparu strwythur a sicrhau eglurder o ran disgwyliadau. Cadarnhaodd y bobl y siaradwyd â nhw eu bod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt a bod ganddynt ddewis o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Dywedasant fod y bwyd yn dda iawn; y staff yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn effeithiol yn eu gwaith. Gwelsom ganmoliaeth gan y bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth; dywedodd un “*mae pawb yn anhygoel, diolch am bopeth, rydych chi wedi fy helpu i ddod yn fersiwn gwirioneddol o fi fy hun”.* Mae’r bobl yn hapus â'r cymorth therapiwtig y maent yn ei dderbyn.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar waith i ddiogelu'r unigolion sy’n agored i niwed y maent yn darparu cymorth a gofal iddynt. Mae'r rheolwr yn bresennol trwy gydol yr wythnos ac yn gwneud ei hun yn weladwy i’r bobl. Mae hi'n holi am eu llesiant bob dydd ac yn gofyn am farn y bobl ar eu profiad o'r gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael cymorth un-i-un dyddiol gyda'r staff a neilltuwyd i weithio gyda nhw, gan roi cyfle i godi unrhyw bryderon yn gyfrinachol. Mae’r staff wedi'u hyfforddi mewn diogelu ac mae'n rhaid iddynt gadw at bolisïau diogelu sydd wedi'u cynllunio i amddiffyn y bobl. Cynhelir archwiliadau ar bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir yn aml iawn i helpu i sicrhau arferion effeithiol a diogel.

Mae darparwr y gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid ac yn rheoli'r risgiau o ran heintiau. Mae'r staff ac ymwelwyr yn gwisgo masgiau mewn mannau cymunol, rhaid i bawb lofnodi cofnod ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y gwasanaeth a gellir dod o hyd i hylif diheintio dwylo mewn gwahanol leoedd o amgylch yr adeilad.

Mae systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau ar waith. Cedwir cofnod o feddyginiaeth a roddir a chynhelir archwiliadau wythnosol o feddyginiaeth gan gynnwys cyfrif cyffuriau i helpu i sicrhau nad oes unrhyw gamgymeriadau. Ar hyn o bryd mae meddyginiaeth yn cael ei storio a'i rhoi o storfa ddiogel; mae'r rheolwr wedi bod yn rhagweithiol wrth nodi ffyrdd o wella'r trefniant hwn. Bwriedir defnyddio ystafell fwy gyda

mynediad hawdd at gyfleusterau ymolchi dwylo, dŵr yfed, seddi i’r bobl sy'n cymryd eu meddyginiaeth a mwy o le i weithio. Bydd hyn yn darparu preifatrwydd ac urddas ychwanegol i’r bobl sy'n derbyn triniaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth unigol yn cael eu darparu mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n cynnwys cyfleusterau sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r eiddo yn adeilad mawreddog, hanesyddol sydd wedi'i foderneiddio a'i adnewyddu i safon uchel. Ni ellir ei weld o'r ffordd fawr ac mae'n sefyll yn ei diroedd helaeth ei hun yn cynnig preifatrwydd mewn amgylchedd heddychlon. Mae'r holl ystafelloedd gwely wedi'u haddurno a'u dodrefnu'n chwaethus, gan ddarparu lle tawel a chyfforddus i ymlacio. Mae ffenestri mawr yn rhoi golygfa ddymunol o'r gerddi ac yn darparu llawer o olau naturiol ar gyfer darllen. Mae teledu sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd ym mhob ystafell wely sy'n caniatáu i’r bobl ddewis yr hyn y maent yn ei wylio pan fyddant am ei wylio. Yn yr un modd, mae ystafelloedd cymunol yn ffres ac yn olau ac yn creu amgylchedd sy'n tawelu. Mae digon o fannau cymunol i ganiatáu heddwch a llonyddi'r bobl neu i ymgysylltu ag eraill mewn gweithgareddau hamdden therapiwtig. Yn ogystal, mae un ystafell yn cynnwys cegin fach fel y gall y bobl helpu eu hunain i frecwast, byrbrydau a diodydd. Mae gan y ceidwad tŷ amserlen lanhau a gwelsom fod yr eiddo'n cael ei gynnal i safon uchel o lanweithdra. Y tu allan, mae'r tiroedd helaeth yn darparu digon o le i fwynhau amser tawel neu gymdeithasu ag eraill. Mae yna lawntiau mawr gyda rhai seddau wedi'u darparu, ardal farbeciw a rhandiroedd llysiau i'r bobl sydd eisiau garddio. Mae rhai pobl wedi gofyn am gyfleuster campfa ar y safle ac mae'r darparwr yn bwriadu addasu adeilad allanol at y diben hwn.

Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom fod archwiliadau'n cael eu cynnal ar yr adeilad; mae'r ceidwad tŷ a'r staff yn rhoi gwybod am unrhyw atgyweiriadau sydd eu hangen ac mae'r staff cynnal a chadw yn cadw cofnod o'r hyn sydd ei angen a'r hyn a weithredir. Mae nifer o wiriadau a mesurau ar waith i gadw'r adeilad yn ddiogel; mae archwiliad i wirio cyflwr y gosodiad trydan, profi offer trydanol, diogelwch tymheredd y dŵr gan gynnwys profion ar gyfer risgiau legionella, a gwresogi, i gyd yn helpu i gadw'r eiddo'n ddiogel. Sicrheir diogelwch tân trwy ddarparu offer tân profedig, goleuadau argyfwng, system chwistrellu ac arwyddion allanfa dân amlwg wedi'u goleuo'n dda. Mae'r staff wedi'u hyfforddi mewn diogelwch tân ac mae cyfarwyddiadau gadael mewn argyfwng wedi'u harddangos ym mhob ystafell ac yn y pecyn gwybodaeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi gweithrediad llyfn y gwasanaeth ac i sicrhau bod gofal o ansawdd yn cael ei ddarparu. Mae unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu cefnogi'n dda i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r unigolyn cyfrifol ar gyfer y sefydliad mewn perthynas â Parkland Place yn ymweld yn aml ac yn cwblhau archwiliadau a gwiriadau ar wahanol agweddau ar y gwasanaeth o leiaf bob tri mis. Yna, cynhyrchir adolygiad chwarterol, sy'n casglu'r cyfan a ddarganfyddir ar yr ymweliadau hyn. Gwelsom fod pob agwedd ar y cartref yn cael ei harchwilio, ac anogir y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gwblhau arolwg cyn iddynt adael a gwneud unrhyw awgrymiadau i wella'r gwasanaeth. Mae 'dogfen argymhellion a chamau gweithredu adolygiad ansawdd' ac 'Archwiliad Cydymffurfedd ac Ansawdd Gorffennaf 21' ar gael. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn rhoi sicrwydd bod y gwasanaeth yn cael ei asesu'n gyson i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddatganiad o ddiben yn dda.

Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n ddigon cymwys ac sydd â'r wybodaeth, cymhwysedd, sgiliau a chymwysterau i ddarparu'r lefelau o ofal a chymorth sydd eu hangen i alluogi'r unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom sut mae cymorth yn cael ei ddarparu a beth sydd ei angen i sicrhau bod hyn yn digwydd yn dda. Mae rotâu staff yn dangos bod gan bob unigolyn ddau aelod o staff wedi'u neilltuo ar eu cyfer drwy gydol eu harhosiad fel eu bod yn cael cymorth parhaus, yn dod yn gyfarwydd ac yn teimlo'n gyfforddus â'r unigolyn hwnnw. Mae yna geidwad tŷ, gweithiwr cynnal a chadw a chogydd. Mae gweinyddwr a rheolwr a thri aelod o staff cymorth ar ddyletswydd ar unrhyw un adeg o'r dydd. Mae hyn yn bodloni'r nifer sydd eu hangen ar y gwasanaeth i gyflwyno'r sesiynau grŵp a therapi un-i-un unigol. Roedd yr archwiliad arlwyo a gwblhawyd gan y cogydd yn ddiweddar wedi nodi'r angen am fwy o gymorth yn y gegin ac mae hyn yn cael ei roi ar waith; mae hyn yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn gwrando ac yn gwerthfawrogi'r staff.

Mae academi hyfforddiant y darparwr yn annog y staff i wneud cynnydd a datblygu mwy o arbenigedd yn eu gwaith. Cynigir ystod eang o hyfforddiant mewn pynciau perthnasol ac mae'n dangos ymrwymiad i greu grŵp staff arbenigol. Clywsom y bobl yn canmol gallu'r staff. Gwelsom y staff yn gweithio'n hyderus. Roeddent yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio eu menter eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau annibynnol, gwybodus ynghylch cymorth rhywun.

Mae gan y darparwr gwasanaeth oruchwyliaeth o'r trefniadau ariannol a buddsoddiadau yn y gwasanaeth fel ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r adeilad wedi'i adnewyddu a'i addurno drwyddo draw i safon uchel. Mae'r archwiliadau cynhwysfawr yn cynnwys gwybodaeth am ddeiliadaeth felly mae'r darparwyr bob amser yn cael eu hysbysu. Yn ddiweddar, mae argaeledd arbenigedd mewnol a buddsoddiad pellach wedi galluogi arallgyfeirio darpariaeth

therapiwtig y gwasanaeth. Gall Parkland Place nawr gynnig gwasanaethau therapiwtig i helpu gydag ystod ehangach o ddibyniaethau.  Bydd mwy o bobl nawr yn elwa ar y gwasanaethau a ddarperir i drin dibyniaeth a bydd y gwasanaeth yn parhau i dyfu.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | yn yr arolygiad hwn. | |

**Dyddiad cyhoeddi** 25/07/2022